**<u>AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU</u>**

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Mehefin 2015 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am.

**PRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd)) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| R J Dutton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**<u>Hefyd yn bresennol</u>**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol y Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Roberts (Pennaeth Cyfleusterau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2015

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Archwiliadau diogelwch tân yn y cartref – roedd y Cyng. Shotton wedi cael archwiliad diogelwch tân yn ei gartref yn ddiweddar a thalodd deyrnged i waith yr ymarferwyr a oedd yn garedig a chwrtais.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mawrth a Mehefin 2015 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Nododd yr Aelodau ymweliadau'r Ffenics a mynegi eu cefnogaeth i brosiectau'r Ffenics a gwaith caled y tîm sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc. Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau fod y swyddogion wedi gallu diogelu arian ar gyfer prosiect y Ffenics yn 2015-16 er bod y grant diogelwch cymunedol wedi cael ei leihau.

5.3 Roedd y Cyng. R Wright wedi mynychu agoriad swyddogol gorsaf dân a heddlu Nefyn a diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect; teimlai fod yr orsaf newydd yn glod i'r Gwasanaeth ac yn ychwanegiad i'w groesawu i'r ardal.

5.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 PERFFORMIAD ARIANNOL 2014-2015

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r aelodau o berfformiad ariannol yn 2014-15. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi trafod yr un adroddiad yn ei gyfarfod ac nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau, nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, ac roeddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

6.2 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn gwestiynau am yr adroddiad, ac i ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau am y ddarpariaeth bensiynau, cadarnhawyd bod y pensiwn ar sail afiechyd a dalwyd yn ystod y flwyddyn wedi cael ei ariannu o'r gyllideb refeniw er mwyn cynnal y ddarpariaeth i'w defnyddio yn y dyfodol.

6.3 Diolchodd yr Aelodau i'r Trysorydd a'i dîm am yr adroddiad manwl, ac roeddent yn teimlo bod yr Awdurdod wedi gwneud yn dda i barhau i ddarparu ei wasanaethau mewn perthynas â'r amcanion a osodwyd, er bod gostyngiad yn y gyllideb.

6.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo**

**(i) defnyddio £534,048 o'r tanwariant i ariannu'n uniongyrchol y gwariant cyfalaf;**

**(ii) trosglwyddo gweddill y tanwariant o £524,506 i gronfeydd a glustnodwyd;**

**(iii) trosglwyddo o'r gronfa gyfalaf fel y nodir isod:**

| | |
|---|---|
| Gwariant Cyfalaf Cyllid Uniongyrchol -<br>Cerbydau'r System Amser Cyflawn Gwledig (cymeradwywyd gan yr AT ym Medi 15)<br>Prynu prydlesau a Chyfarpar (cymeradwywyd gan yr AT ym Mawrth 15) | <br>£300,000<br><br>£234,048 |
| Cyfraniad i'r cronfeydd-<br>Costau pontio radio (cymeradwywyd gan yr AT yn Rhag. 15)<br>Ymorol am y gostyngiad yn y Grant ADTC (newydd) | <br>£300,000<br>£224,506 |
| Cyfanswm y Tanwariant | £1,058,554 |
| Cronfa Gyfalaf i gefnogi ariannu'r rhaglen gyfalaf | -£700,000 |

7 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION ARIANNOL 2014-15

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad sy'n un o ofynion blynyddol gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn nodi gweithgarwch y trysorlys a gwir ddangosyddion ariannol 2014-2015 yn unol â gofynion y Cod Ariannol.

7.2 Roedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol sy'n cyfyngu ar lefelau'r risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys. Cadarnhaodd y Cyng. Skelland, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fod y pwyllgor wedi cael cyflwyniad manwl ar yr adroddiad yn ei gyfarfod diwethaf ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad.

7.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo gwir ddangosyddion ariannol 2014-2015.**

8 PRIF BWYNTIAU PERFFORMIAD ANARCHWILIEDIG AMCANOL

8.1 Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol gyflwyniad ar ffigyrau perfformiad anarchwiliedig amcanol 2014-15. Roedd hwn yn gyfle cynnar i'r Aelodau weld perfformiad y Gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a nodwyd y bydd yr wybodaeth yn cael ei adrodd yn ffurfiol drwy'r asesiad perfformiad a gyhoeddir erbyn 31 Hydref 2015. Nodwyd bod y Panel Gweithredol yn cael adroddiadau monitro perfformiad yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

8.2 Mae parhad yn y gostyngiad yn nifer cyffredinol y tanau, gyda rhyw draean ohonynt yn cael eu cynnau'n fwriadol. Aethpwyd at 438 o danau mewn cartrefi yn 2014-15, sy'n cyfateb i 1 tân am bob 800 o gartrefi yng Ngogledd Cymru; mae hyn yn cymharu â 10 mlynedd yn ôl pryd roedd yna 1 tân am bob 600 o gartrefi. Allan o'r 438 o danau mewn anheddau, roedd larwm mwg wedi seinio mewn 286 o ddigwyddiadau, a 100 arall o'r tanau wedi digwydd mewn anheddau lle'r oedd yna larymau mwg yn gweithio ond nad oedd y larwm wedi seinio oherwydd pa mor bell oeddent o darddiad y tân. Mewn 52 o'r tanau mewn anheddau, nid oedd unrhyw larwm mwg yno, ond mae'r nifer hwn wedi gostwng dros y blynyddoedd ac o gymharu â'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, ffigwr sy'n ymddangos yn isel yw 11.9% o gartrefi lle bu tân ond a oedd heb larwm mwg. O ran y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau, mae'r ffigyrau'n parhau'n isel ond mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o'r anafiadau a'r marwolaethau'n debygol o gael eu hachosi gan danau mewn cartrefi. Ystyrir bod y gostyngiad yn y ffigyrau hyn i'w priodoli i bwyslais yr Awdurdod ar atal tanau ac chynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref dros y blynyddoedd diwethaf.

8.3 O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, bu cynnydd yn nifer y galwadau tân diangen, sef 3,218. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys galwadau diangen didwyll, galwadau ffug maleisus a galwadau oherwydd larymau tân awtomatig. Oherwydd y polisi herio galwadau sydd gan yr Ystafell Reoli, mae'r staff wedi llwyddo i adnabod dros 300 o alwadau fel rhai maleisus ac felly mae wedi arbed peiriant tân rhag gorfod troi allan i ddigwyddiad nad oedd yn bodoli. Cafwyd galwadau o ganlyniad i larymau tân awtomatig o 1,250 o eiddo annomestig a 722 o gartrefi; disgwylir y bydd polisi newydd yr Awdurdod i ymdrin â larymau tân awtomatig a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015 yn gostwng nifer yr adegau pryd yr anfonir peiriannau tân at larymau tân awtomatig. Bydd yr Aelodau'n cael diweddariad ynghylch y polisi newydd yn y cyfarfod ym mis Medi.

8.4 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, a diolchwyd i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am y cyflwyniad. Roeddent yn falch o berfformiad yr Awdurdod er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad a'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL AM DDYLEDION DRWG A DDILEWYD

9.1 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol yn rhestru'r holl ddyledion a ddilëwyd, gan ddatgan y rhesymau dros eu dileu.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi na ddilëwyd unrhyw ddyledion drwg rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.**

10 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNAU CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

10.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i'r Awdurdod lunio datganiad polisi disgresiwn ar gyfer pensiynau'r diffoddwyr tân. Hefyd gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r penderfyniadau yn y datganiad polisi disgresiynau a chymeradwyo y bydd penderfyniadau o ddydd i ddydd ar ran yr ATA yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd. Nodwyd bod aelodau'r Bwrdd Pensiynau Lleol, sef y Cynghorwyr W T Owen, D Macrae, J R Skelland a B Dunn, yn methu pleidleisio.

10.2 Mae gorchmynion cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr (i) cyhoeddi datganiad polisi ysgrifenedig ynglŷn â'r modd y bydd yn arfer y disgresiynau a ddarperir gan y cynllun, (ii) ei gadw dan arolwg a (iii) ei adolygu fel y bo'r angen. Mae'r ddogfen yn bodloni'r gofynion hyn a phenderfyniad y sefydliad ynghylch y rhain.

10.3 O ran "Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (*NFPS*) 2015 – Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod diwydiannol neu absenoldeb awdurdodedig (Rheoliad 111)", rhoddodd y DBST wybod i'r aelodau fod y disgresiwn hwn wedi cael ei drafod yn fanwl gan y Bwrdd Pensiynau Lleol a chytunwyd y byddai angen dull cyson ar sail meini prawf penodol.

10.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob penderfyniad disgresiynol sydd yn Natganiad Polisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, fel y nodir isod, a dirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.**

| **Disgresiynau a Rheoliadau Cynlluniau FPS (92), NFPS (2007) ac NFPS 2015** | **Cymeradwywyd yr argymhelliad fel a ganlyn:** |
|---|---|
| **1. FPS (A) Rheol B7 (5a) Cynyddu'r cyfyngiad cymudo**<br>Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i gyflogwyr allu caniatáu i aelodau o gynllun 1992 sydd â llai na 30 mlynedd o wasanaeth ac sydd o dan 55 mlwydd oed i gymudo cyfanswm o chwarter o'u pensiwn am lwmp-swm pan fyddant yn ymddeol. Dan y ddarpariaeth newydd, byddai'r cyflogwr yn gyfrifol am unrhyw gost ychwanegol, a allai fod yn sylweddol, petaent yn arfer y disgresiwn hwn. Byddai angen achos busnes llawn i ddangos | Mabwysiadu'r disgresiwn, ond bod cynigion unigol yn cael eu hystyried fesul achos gan ddibynnu ar anghenion y Gwasanaeth, a'r Prif Swyddog Tân i gytuno, gyda chyngor y Trysorydd. |

| | |
|---|---|
| rheolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'i swyddogaethau gyda'r costau cysylltiedig. | |
| **2. FPS (1992) Rheol K4 Tynnu pensiwn yn ystod cyflogaeth gydag awdurdod tân ac achub (lleihad)**<br>Diwygio cynllun 1992 i ehangu disgresiwn cyflogwyr i leihau pensiwn a delir i aelod sy'n cael ei ailgyflogi mewn unrhyw swydd gan unrhyw awdurdod tân ac achub; ac i'w gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr sy'n talu'r pensiwn i dalu i'r gronfa bensiwn y swm a delir ac a allai fod wedi bod yn destun lleihad dan reolau'r cynllun. Byddai'r gofyniad i'r cyflogwr fod yn gyfrifol am y costau, pryd nad ydynt yn arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelodau, yn berthnasol i gynlluniau 1992, 2007 a'r cynllun RDS.<br><br>Mae Gorchymyn Diwygio 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr ad-dalu'r gronfa bensiwn os nad yw'n arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelod pan gaiff ei ail-gyflogi. | Mabwysiadu'r disgresiwn. |
| **3. Cynllun NFPS 2015 Dirprwyo (Rheoliad 5 (2))**<br><br>Rhaid i reolwr y cynllun sicrhau bod y pwerau dirprwyedig yn briodol ac yn gyfredol. | Defnyddio'r disgresiwn. |
| **4. Cynllun NFPS 2015 – Ymddeoliad a ysgogir gan y cyflogwr (Rheoliad 62).**<br><br>Gall cyflogwr benderfynu bod aelod gweithredol pan yw'n 55 neu drosodd ond o dan 60 ac sydd, ar sail effeithlonrwydd busnes, yn cael ei ddiswyddo neu'n cael ei gyflogaeth wedi ei therfynu drwy gydsyniad ar y naill ochr a'r llall, yn gallu cael ei bensiwn ymddeoliad ar unwaith heb y gostyngiad am dalu'n gynnar.<br><br>Ni chaiff cyflogwr ond defnyddio'r disgresiwn hwn os yw'r cyflogwr yn penderfynu y byddai pensiwn ymddeoliad a ddyfernir ar y sail hwn yn gymorth i reoli ei swyddogaethau'n ddarbodus, effeithiol ac effeithlon ar ôl cymryd ystyriaeth o'r costau sy'n debygol o fod yn yr achos dan sylw. (Rheoliad 62 (1) a (2)). | Mabwysiadu'r disgresiwn, ond edrych ar gynigion unigol fesul achos, gan ddibynnu ar anghenion y Gwasanaeth, a'r Prif Swyddog Tân i gytuno, gyda chyngor y Trysorydd. |

| | |
|---|---|
| **5. Cynllun NFPS 2015 – Cyflog pensiynadwy (Rheoliad 17). Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i benderfynu a fydd taliadau datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu trin fel cyflog pensiynadwy. (Rheoliad 17 (1)(d)).**<br><br>O'r blaen, roedd taliadau DPP yn cael eu trin yn bensiynadwy ac yn cael eu cynnwys yn y dyfarniadau buddion fel Buddion Pensiwn Ychwanegol. | Mabwysiadu'r disgresiwn.<br>Er tegwch a chysondeb, bydd taliadau DPP yn parhau i fod yn bensiynadwy. |
| **6. Cynllun NFPS 2015 – Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod diwydiannol neu absenoldeb awdurdodedig (Rheoliad 111).**<br><br>Pan fo aelod gweithredol yn absennol o gyflogaeth y cynllun oherwydd salwch neu anaf ac nad oes ganddo hawl i dderbyn cyflog pensiynadwy, neu oherwydd anghydfod diwydiannol neu absenoldeb di-dâl awdurdodedig, gall dalu cyfraniadau'r aelod; os bydd yn gwneud hynny, gall rheolwr y cynllun ei gwneud yn ofynnol iddo dal cyfraniadau'r cyflogwr hefyd. (Rheoliad 111(2), (3) a (4). | Caiff pob achos ei ystyried yn ei rinwedd ei hun yn dilyn ystyriaeth lawn o'r holl oblygiadau ariannol ac o ran darparu gwasanaethau. |
| **7. Cais am wneud taliad trosglwyddo (Rheoliad 141). Mae hyn yn berthnasol i bob cynllun.**<br><br>Mae cyfyngiad amser o flwyddyn ar ôl dod yn aelod gweithredol pryd y gall person wneud cais i drosglwyddo taliad o gynllun pensiwn analwedigaethol. Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod hwn. | Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i ystyried ymestyn y cyfyngiad amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i mewn yn hwy na deuddeg mis ar ôl ymuno oni bai:<br><br>(i) bod yr aelod o'r cynllun wedi gwneud cais i ymchwiliadau gychwyn o fewn y cyfyngiad amser o ddeuddeg mis, neu<br><br>(ii) bod rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod am yr angen i wneud cais am ymchwiliad i'r posibilrwydd o drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol o fewn y cyfyngiad amser o ddeuddeg mis, a bod ffeiliau AD a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd cyfnod hwy yn cael ei ganiatáu cyn belled nad oes rheswm hysbys na disgwyliad bod y gweithiwr yn cael mynediad at ei hawliau pensiwn o fewn y 12 mis nesaf. |

11 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

11.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r trefniadau newydd ar gyfer goruchwylio a rheoli risgiau strategol i'r Awdurdod, gan gynnwys diffiniad o risg strategol i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod. Esboniodd y DBST fod y Panel Gweithredol wedi ystyried yr adroddiad ac roedd ei aelodau wedi argymell cymeradwyo'r diffiniad o risg strategol a'r trefniadau a oedd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

11.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo**

**(i) y diffiniad o risg strategol a awgrymir sef "digwyddiad a fyddai'n cael effaith ar gyflawni canlyniadau arfaethedig yr Awdurdod a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd"; a**

**(ii) y trefniadau ar gyfer goruchwylio a rheoli'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod.**

12 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

12.1 Cyflwynodd y DBST y datganiad llywodraethu blynyddol i'r aelodau ei gymeradwyo. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael gwybodaeth am bob egwyddor sydd yn y datganiad ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r datganiad. Nodwyd y bydd y cynllun gweithredu yn y datganiad yn cael ei weithredu yn y misoedd i ddod.

12.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys datganiad llywodraethu blynyddol 2014-15 a nodi y bydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o ddatganiad o gyfrifon 2014-15.**

13 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

13.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

13.2 Cofnodir cwynion wrth i'r materion hynny ddod i sylw'r Gwasanaeth pan fo aelodau o'r staff yn cymryd rhan neu'n cyflawni busnes cyfreithlon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nodwyd ar ôl ymchwilio i'r 20 o gwynion a ddaeth i law fod 10 wedi cael eu cadarnhau. Yn yr un cyfnod daeth 61 o lythyrau, cardiau, negeseuon e-bost, Twitter a Facebook i law yn mynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a'r geiriau o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

14 COFNODION CYFARFODYDD

14.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno er gwybodaeth:

- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2015
- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

15 RHAGLEN GYFALAF 2015-16

15.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod y diweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa bresennol rhaglen gyfalaf Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer ei ystâd.

15.2 Nododd yr Aelodau y gwaith sy'n mynd yn ei flaen ar orsaf dân ac ambiwlans Wrecsam, a disgwylir iddi agor yn Ebrill 2016. Mae gorsaf dân a heddlu Nefyn yn weithredol erbyn hyn a bydd y gwaith o adeiladu gorsaf dân a heddlu Tywyn yn cychwyn cyn bo hir. I ateb cwestiwn ynglŷn ag ailadeiladu gorsaf dân ac ambiwlans Glannau Dyfrdwy cadarnhawyd y bu peth oedi ond parheir i ddisgwyl iddi gael ei chwblhau erbyn Tachwedd 2015 a bydd hynny'n cael ei wneud o fewn y gyllideb.

15.3 Disgwylir y bydd yr Awdurdod, ar ôl i'r gwaith adeiladu hwn gael ei gwblhau, yn symud tuag at gyfnod cynnal a chadw mewn perthynas â'i holl adeiladau. Mae gwaith sydd yn yr arfaeth a mân waith yn mynd ymlaen hefyd mewn gwahanol orsafoedd.

15.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

16 Y DIWEDDARAF AM Y GWEITHREDU DIWYDIANNOL

16.1 Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau na fu unrhyw ddatblygiadau yn y misoedd diwethaf.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**